# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Rhagfyr 2016

Amser: 15.53 - 16.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3889

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd)<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Naomi Stocks (Ail Glerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 40KB) Gweld fel HTML (37KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas a Nathan Gill. Nid oedd unrhyw un yn dirprwyo ar eu rhan.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)040 - Rheoliadau Cymeriad Crefyddol Ysgolion (Gweithdrefn Ddynodi) (Cymru) 2016

### 2.2 SL(5)041 - Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2016

2.0a Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

## 3 Papur(au) i'w nodi

### 3.1 Adroddiad gan Bwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin: Dyfodol yr Undeb, rhan dau: Cysylltiadau rhyng-sefydliadol yn y DU

3.1a Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Penodiad ac atebolrwydd Comisiynwyr: Cylch gorchwyl yr ymchwiliad

5.1 Trafododd y Pwyllgor ei gynllun ar gyfer yr ymchwiliad, a chytunodd arno.